Y CYFANSODDIAD ADRAN 24
DISGRIFIAD O RÔL AELOD ETHOLEDIG

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I etholwyr eu ward
- I'r cyhoedd

2 Diben a gweithgareddau

Cynrychioli a chefnogi cymunedau

- Cynrychioli lles y ward
- Bod yn cynrychiolydd ar ran y Cyngor yn y ward a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Bod yn gyfrwng cyfathrebu i'r gymuned ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, gan ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pawb yn deg ac yn gyfartal
- Cysylltu ag aelodau gweithredol, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u hystyried
- Hybu goddefgarwch a chydlyniad mewn cymunedau lleol

Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, gan gyrraedd a gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, a goruchwylio perfformiad
- Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys ar bwyllgorau a phaneli y gallent gael eu penodi iddynt
- Cadw at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau
- Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)

- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol lleol fel unigolyn penodedig y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, gan hyrwyddo diddordeb cyffredin a chydweithrediad er budd pawb
- Cynrychioli a bod yn eiriolwr ar ran y Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i faterion
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw

- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, briodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob cod a phrotocol arall a fabwysiadwyd, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

Datblygiad personol a rôl

- Cymryd rhan weithgar mewn cyfleoedd ar gyfer datblygu a hyfforddiant a ddarperir ar gyfer aelodau gan yr awdurdod

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun Cyngor fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD O SWYDDOGAETH ARWEINYDD (A DIRPRWY)

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r grŵp enwebu
- I'r cyhoedd

2 Diben a gweithgareddau

Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r Cyngor

- Bod yn arweinydd gwleidyddol i'r Cyngor; bod yn brif lefarydd gwleidyddol i'r Cyngor.
- Darparu arweinyddiaeth wrth adeiladu consensws gwleidyddol o amgylch polisïau'r cyngor
- Ffurfio gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned
- Darparu arweinyddiaeth gref, a chlir wrth gydlynu polisïau, strategaethau a darparu gwasanaethau

Rôl ar y Bwrdd Gweithredol

- Dynodi'r swyddogaethau arweiniol priodol
- Penodi aelodau priodol o'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer pob rôl arweiniol
- Dyrannu Aelodau'r Bwrdd Gweithredol i rolau gan ystyried eu galluoedd.
- Gwneud penderfyniadau gweithredol fel y dirprwyir i'r Arweinydd

Cynrychioli'r Awdurdod a gweithredu fel llysgennad ar gyfer yr Awdurdod

- Cynrychioli'r Awdurdod i safon uchel. Darparu ffigwr cryf, galluog a huawdl i gynrychioli'r Awdurdod o fewn y Fwrdeistref Sirol ac ar gyrff allanol.
- Cynrychioli'r Awdurdod ar y pwyllgor cydlynu CLILC a'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol CLILC.
- Darparu arweinyddiaeth a chefnogi partneriaethau a sefydliadau lleol.
- Cynrychioli'r Awdurdod ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel y bo'n briodol.

Darparu arweinyddiaeth o fewn y rôl arweiniol

- Os yw'n cael ei ddyrannu, cyflawni rôl Aelod arweiniol, gan roi sylw i bwrpas y rôl, gweithgareddau, a manyleb rôl Aelod Arweiniol

Rheoli ac arwain gwaith y Bwrdd Gweithredol a chadeirio cyfarfodydd

- Sicrhau rhediad effeithiol y Bwrdd Gweithredol drwy reoli'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a sicrhau ei datblygiad parhaus.

- Sicrhau bod gwaith y Bwrdd Gweithredol yn diwallu amcanion polisi cenedlaethol.

- Cynghori a mentora Aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol yn eu gwaith.
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn unol â'r Cyfansoddiad.
- Yn absenoldeb yr Arweinydd, bydd y Dirprwy Arweinydd yn cyflawni'r rôl hon.

Cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau ar y cyd y Bwrdd Gweithredol

- Gweithio'n agos ag Aelodau Gweithredol eraill er mwyn sicrhau datblygu polisïau cyngor effeithiol a fframwaith cyllidebol ar gyfer y Cyngor, a darparu gwasanaethau o safon uchel i bobl leol.
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Gweithredol ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad

- Cysylltu â'r Prif Weithredwr, a swyddogion priodol eraill, yn rheolaidd
- Gweithio gyda gweithwyr y Cyngor mewn perthynas â gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor, rolau rheoli swyddogion a datblygu materion polisi.

Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth fynd ar drywydd nodau a blaenoriaethau cyffredin
- Trafod a broceru mewn achosion o flaenoriaethau gwahanol ac anghytuno
- Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol drwy ddangos gweledigaeth a rhagweledigaeth

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i safbwyntiau
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob cod a phrotocol arall a fabwysiadwyd, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

4 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

Dirprwy Arweinydd

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd yn ei absenoldeb
- Cynorthwyo'r Arweinydd i gyflawni dyletswyddau penodol yn ôl yr angen

DISGRIFIAD O RÔL YR AELOD ARWEINIOL

1 Atebolrwydd

- I'r Arweinydd
- I'r Bwrdd Gweithredol (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
- I'r Cyngor Llawn

2 Diben y swydd a gweithgareddau

Aelodau'r Swyddog Arweiniol

- Rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio yn y Rôl Arweiniol
- Ennill parch swyddogion o fewn y Rôl Arweiniol; rhoi cefnogaeth i swyddogion wrth weithredu rhaglenni Rôl Arweiniol
- Darparu arweinyddiaeth wleidyddol yn y Rôl Arweiniol
- Cysylltu â'r cadeirydd(ion) craffu priodol a derbyn adroddiadau craffu yn ôl y gofyn
- Bod yn atebol am ddewisiadau gwleidyddol, eiriolaeth a pherfformiad yn y Rôl Arweiniol
- Bod â throsolwg o reoli perfformiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Rôl Arweiniol
- Gwneud penderfyniadau gweithredol fel y dirprwyir i'r Rôl Arweiniol
- Eirioli a chyflwyno adroddiadau sy'n berthnasol i'r Rôl Arweiniol neu fel a ddyrannwyd gan yr Arweinydd i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor

Cyfrannu at osod agenda strategol a rhaglen waith ar gyfer y Rôl Arweiniol

- Gweithio gyda swyddogion i lunio dogfennau polisi strategol a statudol a pharatoi adroddiadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol. Sicrhau bod ewyllys gwleidyddol y mwyafrif yn cael ei gyflwyno i a thrwy'r Bwrdd Gweithredol.
- Darparu cymorth wrth lunio a gweithredu rhaglen waith strategol yn wleidyddol a statudol. Cynnal ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid yn ôl y gofyn. Gwneud yn siwr bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Rôl Arweiniol yn cael ei diweddaru ac yn gywir.

Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y Rôl Arweiniol

- Darparu ffigur cryf, cymwys a darbwyllol i gynrychioli'r Rôl Arweiniol. Bod yn arweinydd mewn enw mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid.

Adrodd a rhoi cyfrif

- Adrodd fel y bo'n briodol i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Bwrdd Gweithredol, cadeiryddion priodol y pwyllgorau craffu, cyrff rheoleiddio a'r cyfryngau.
- Bod y prif lefarydd gwleidyddol ar gyfer y Rôl Arweiniol.
- Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion o fewn y Rôl Arweiniol i gyflwyno adroddiadau yn ôl yr angen a bod yn gyfrifol am ac ateb cwestiynau yn ymwneud â'r Rôl Arweiniol.

Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol a gwneud penderfyniadau

- Dangos diddordeb mewn Rolau Arweiniol eraill a'u cefnogi
- Cydnabod a chyfrannu at faterion sy'n torri ar draws Rolau Arweiniol neu yn faterion o gyfrifoldeb ar y cyd

Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth fynd ar drywydd nodau a blaenoriaethau cyffredin
- Trafod a broceru mewn achosion o flaenoriaethau ac anghytuno
- Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol drwy ddangos gweledigaeth a rhagwelediad

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i safbwyntiau
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, briodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob Cod a Phrotocol arall a fabwysiadwyd, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

Disgrifiad o Swyddogaeth Aelod o'r Bwrdd (heb Rôl Arweiniol)

1 Atebolrwydd

- I'r Arweinydd
- I'r Bwrdd (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
- I'r Cyngor Llawn

2 Diben a gweithgareddau

Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol a gwneud penderfyniadau

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, gan gyrraedd a gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, a goruchwylio perfformiad
- Cadw at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau gweithredol
- Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill y mae gan y Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb amdanynt

Adrodd a rhoi cyfrif

- Adrodd fel y bo'n briodol i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Bwrdd Gweithredol, cadeiryddion priodol y pwyllgorau craffu a chyrff rheoleiddio.
- Ymddangos gerbron y Pwyllgorau Craffu fel y bo angen mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol

Cynrychioli'r Bwrdd Gweithredol

- Cynrychioli'r Bwrdd Gweithredol ar gyrff allanol fel penodai o'r Bwrdd

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i safbwyntiau
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob Cod a Phrotocol arall a fabwysiadwyd, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor fel

- Ymddiriedaeth

- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

Disgrifiad o Rôl Maer a Dirprwy Faer y Cyngor

1 Atebolrwydd

- Y Cyngor Llawn

2 Diben a gweithgareddau

Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor

- Fel pennaeth seremonïol a dinesig y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
- Cynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron dinesig a seremonïol

Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor

- Llywyddu cyfarfodydd y Cyngor, fel y gellir cynnal ei fusnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn deg
- Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a Rheolau Gweithdrefn eraill

Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor

- Sicrhau y cedwir at y Cyfansoddiad ac, os oes angen ac ar ôl derbyn cyngor priodol, rheoli ar y dehongliad o'r Cyfansoddiad

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i safbwyntiau
- Rhoi arweiniad cymunedol a hybu dinasyddiaeth weithgar
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob Cod a Phrotocol arall perthnasol, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor

Dirprwy Faer

- Cyflawni dyletswyddau'r Maer yn ei absenoldeb
- Cynorthwyo'r Maer mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen

Mae'r Disgrifiad Rôl yn disgrifio dyletswyddau'r Maer yn rhinwedd ei swydd wrth lywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor.

Nid yw'n rhoi manylion y cyfrifoldebau llysgenhadol neu seremonïol ehangach sy'n ofynnol gan y Maer.

DISGRIFIAD RÔL CADEIRYDD PWYLLGOR RHEOLEIDDIO

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I aelodau'r pwyllgor rheoleiddio

2 Diben a gweithgareddau

Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad

- Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol o gyfarfodydd i hwyluso agwedd gynhwysol a chyfranogol a phenderfyniadau eglur
- Sicrhau bod ymgeiswyr a phartïon eraill â diddordeb yn fodlon o ran tryloywder y broses reoleiddio
- Dangos uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Dirprwyo camau i is-bwyllgorau fel y bo'n briodol

Hyrwyddo rôl y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-farnwrol

- Gweithredu fel llysgennad i'r pwyllgor rheoleiddio, gan hwyluso dealltwriaeth o'r rôl
- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio gwaith y pwyllgor mewn modd teg a chywir
- Sicrhau bod y pwyllgor yn drylwyr a gwrthrychol, yn derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac wrth ymdrin ag achosion/ceisiadau unigol cyn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau
- Deall rolau aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor rheoleiddio
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol Aelodau/Swyddogion, pob Cod a Phrotocol arall perthnasol, a'r safonau uchaf o ymddygiad mewn swydd gyhoeddus

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a nodir yng Nghynllun y Cyngor fel

- Ymddiriedaeth
- Parch

- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL AELOD PWYLLGOR RHEOLEIDDIO

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y pwyllgor rheoleiddio

2 Diben a gweithgareddau

Hyrwyddo natur y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-farnwrol

- Bod yn ymwybodol o natur led-farnwrol penderfyniadau'r pwyllgor rheoleiddio
- Bod â digon o wybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i gyfrannu'n deg ac yn gywir i swyddogaeth y pwyllgor
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac achosion/ceisiadau unigol cyn cyfarfodydd pwyllgor

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoleiddio, gan sicrhau bod ystyriaethau lleol ac argymhellion polisi yn gytbwys i gyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a'i rôl ef/hi rôl trwy gadw at y Cod(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor
- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor rheoleiddio
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
- Cefnogi, a chadw at berthynas barchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr y Cyngor
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion, holl godau a phrotocolau perthnasol eraill y Cyngor a'r ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd

- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL CADEIRYDD CRAFFU

1. Atebolrwydd

- Y Cyngor Llawn
- Y Pwyllgor Craffu
- Y Cyhoedd

2. Diben a gweithgareddau

Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd

- Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol ar gyfer y tîm aelodau
- Hybu rôl Craffu o fewn a thu allan i'r cyngor, gan gysylltu yn effeithiol yn fewnol yn y cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y Cyngor
- Dangos ymagwedd wrthrychol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth graffu
- Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol y gweithgarwch craffu a nodi meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau gwelliant cynyddol
- Cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Cydlynu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu
- Cyflwyno ac argymell syniadau eu Pwyllgor mewn unrhyw fforwm
- Cyfrannu at adroddiad blynnyddol pwyllgorau craffu i'r Cyngor

Rheoli'r rhaglen waith

- Datblygu rhaglen waith gytbwys y pwyllgor sy'n cynnwys craffu cyn ac ar ôl y penderfyniad, datblygu ac adolygu polisïau, craffu ymchwiliol, a monitro perfformiad
- Sicrhau bod y rhaglen yn ystyried ffactorau perthnasol megis: rhaglenni gwaith y bwrdd gweithredol a'r pwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol, a materion cymunedol perthnasol
- Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflwyno yn ôl y rhaglen a defnyddio cyfarfodydd Cynllunio Cadeiryddion Craffu yn effeithiol i gyflawni hyn
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor, ac eraill fel y bo'n briodol
- Cysylltu gyda swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr y gymuned i ddarparu adnoddau a chyflawni'r rhaglen waith
- Cydlynu gyda'r Aelod(au) Arweiniol perthnasol er mwyn sicrhau bod eu Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o eitemau i ddod ble basa'r rôl craffu yn gallu cyfrannu'n adeiladol i unrhyw benderfyniadau

Dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif

- Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau amhriodol y Bwrdd Gweithredol ac Aelodau Arweiniol unigol fel sy'n berthnasol
- Mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn cyflwyno unrhyw argymhellion perthnasol ar ran eu Pwyllgor Craffu

Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Gosod rhaglenni sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer y cyfarfod
- Rheoli cynnydd busnes mewn cyfarfodydd, gan sicrhau bod amcanion cyfarfodydd yn cael eu bodloni, ac y cedwir at y cod ymddygiad, gorchmynion a gofynion cyfansoddiadol eraill

- Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud ymlaen llaw
- Sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

Arwain y Gymuned

- Gweithredu fel ffocws ar gyfer cyswllt rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth graffu
- Meithrin dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r swyddogaeth graffu o fewn y gymuned
- Nodi materion cymunedol perthnasol ar gyfer craffu
- Cynnwys rhanddeiliaid allanol yn llawn, er enghraifft, defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd, tystion arbenigol a phartneriaid mewn gweithgaredd craffu

Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor

- Annog perfformiad uchel gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a grwpiau tasg a gorffen
- Asesu perfformiad unigol ac ar y cyd o fewn y pwyllgor a hwyluso datblygiad priodol

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL IS-GADEIRYDD CRAFFU

1. Atebolrwydd

- Y Cyngor Llawn
- Y Pwyllgor Craffu
- Y Cyhoedd

2. Diben a gweithgareddau

- I gefnogi'r cadeirydd wrth gyflawni ei swyddogaeth, pwrpas a gweithgaredd
- Yn absenoldeb y cadeirydd i gyflawni'r swyddogaeth, pwrpas a gweithgaredd a amlinellodd uchod ar ran y cadeirydd
- Mynychu cyfarfodydd Cynllunio Cadeiryddion Craffu a chyfrannu at y drafodaeth a'r penderfyniadau a wneir
- I fynychu cyfarfodydd rhagbaratoawl a chyfrannu i'r dadleuon a phenderfyniadau a wnaethpwyd
- Yn ogystal â'r cadeirydd i gyfarfod gyda'r Aelod(au) Arweiniol i sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o unrhyw faterion ble gallau'r Pwyllgor Craffu ychwanegu yn adeiladol i'r penderfyniad

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD O RÔL AELOD CRAFFU

1 Atebolrwydd

- Cadeirydd y pwyllgor craffu priodol
- Y Cyngor Llawn
- Y cyhoedd

2 Diben a gweithgareddau

- Cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu, cyflwyno ei raglen waith ac unrhyw grwpiau tasg a gorffen cysylltiedig

3 Adolygu a datblygu polisïau

- Cynorthwyo wrth greu, datblygu, gwella a mireinio polisi'r cyngor
- Herio polisïau ar sail gadarn o dystiolaeth, er enghraifft yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol
- Asesu effaith y polisi presennol

Dal y Bwrdd Gweithredol i Gyfrif, Monitro perfformiad a darpariaeth gwasanaeth

- Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau gan gynnwys holi'r bwrdd gweithredol ac uwch swyddogion dros amser
- Cyfrannu at adnabod a lliniaru risg
- Ymchwilio a mynd i'r afael ag achosion o berfformiad gwael
- Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a phenderfyniadau heriol drwy eu galw i mewn lle bo'n briodol

Hybu gwaith craffu

- Hyrwyddo rôl craffu o fewn a thu allan i'r cyngor, datblygu perthynas mewnol ac allanol effeithiol
- Dangos ymagwedd wrthrychol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth graffu
- Ychwanegu gwerth at y broses o wneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau'r awdurdod drwy graffu effeithiol

Arwain y Gymuned

- Defnyddio craffu fel modd o fynd i'r afael â materion cymunedol ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yng ngwaith yr awdurdod
- Datblygu atebion polisi hyfyw a derbyniol yn lleol
- Adeiladu deialog o amgylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad, ymhlith cymunedau a rhanddeiliaid

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Paratoi yn ddigonol a phriodol ar gyfer cyfarfodydd drwy ymchwil a briffio
- Cymryd rhan mewn ffordd ragweithiol, gwybodus ac effeithiol gan ystyried y Cod Ymddygiad, Rheolau Sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL CADEIRYDD PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Diben a Gweithgareddau

Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd

- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir

- Arwain y pwyllgor yn ei rôl yn y canlynol:

  - Dynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
  - Adolygu darpariaeth staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol
  - Cyflwyno adroddiadau fel sy'n briodol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
  - Penodi isbwyllgorau a chadeiryddion isbwyllgorau i gynnal swyddogaethau a ddirprwywyd gan y pwyllgor
  - Ystyried adroddiadau a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
  - Datblygu cefnogaeth aelodau a strategaeth ddatblygu'r Awdurdod
  - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y disgrifir yn strategaeth ddatblygu aelodau'r Awdurdod a Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymru
  - Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau yn ddigonol
  - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at gynllunio datblygiad personol ac adolygiadau datblygu personol blynyddol
  - Gweithio gyda'r cefnogwr cefnogi a datblygu aelodau lle bo'n berthnasol i hyrwyddo rôl yr aelodau a'r gefnogaeth a'r datblygiad angenrheidiol

- Arddangos gonestrwydd a dideueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n cydfynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

Hyrwyddo rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y pwyllgor GD, gan hwyluso dealltwriaeth o'r rôl
- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaeth y pwyllgor yn deg a chywir
- Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, a derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Datblygu safbwynt a gonestrwydd y pwyllgor a'i broses gwneud penderfyniadau
- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor

3 Gwerthoedd

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

    - Ymddiriedaeth
    - Parch
    - Arloesi
    - Hyblygrwydd
    - Uniondeb
    - Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL AELOD PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

2 Diben a Gweithgareddau'r rôl

Deall natur y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- Bod yn ymwybodol o rôl y Pwyllgor wrth:
  - Ddynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
  - Adolygu darpariaeth staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol
  - Cyflwyno adroddiadau fel sy'n briodol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
  - Penodi isbwyllgorau a chadeiryddion isbwyllgorau i gynnal swyddogaethau a ddirprwywyd gan y pwyllgor
  - Ystyried adroddiadau a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
  - Datblygu cefnogaeth aelodau a strategaeth ddatblygu'r Awdurdod
  - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y disgrifir yn strategaeth ddatblygu aelodau'r Awdurdod a Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymru
  - Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau yn ddigonol
  - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at gynllunio datblygiad personol ac adolygiadau datblygu personol blynyddol
- Bod â digon o wybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i gyfrannu'n deg ac yn gywir i swyddogaeth y pwyllgor.
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion sydd gerbron y pwyllgor

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd,
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a'i rôl ef/hi rôl trwy gadw at y Cod(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor

- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

3 Gwerthoedd

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

  - Ymddiriedaeth
  - Parch
  - Arloesi
  - Hyblygrwydd
  - Uniondeb
  - Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Diben a Gweithgareddau'r rôl

Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd

- Arddangos annibyniaeth, gonestrwydd a dideddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n cydfynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir
- Arwain y pwyllgor yn ei rôl yn y canlynol:
  - arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
  - llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
  - Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,
  - Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
  - Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod
  - Adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod a'u cymeradwyo pan fydd pwerau yn cael eu dirprwyo iddo.
  - Datblygu perthynas gyda Archwilwyr
  - Datblygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Hyrwyddo swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan hwyluso dealltwriaeth o'r rôl
- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaeth y pwyllgor yn deg a chywir
- Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, a derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac yn y broses archwilio.

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Datblygu safbwynt a gonestrwydd y pwyllgor a'i broses gwneud penderfyniadau
- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor

3 Gwerthoedd

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

  - Ymddiriedaeth
  - Parch
  - Arloesi
  - Hyblygrwydd
  - Uniondeb
  - Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL AELOD O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Llywodreathu ac Archwilio

2 Diben a Gweithgareddau'r rôl

Deall natur y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Bod yn ymwybodol o rôl y Pwyllgor wrth
  - arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
  - llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
  - Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,
  - Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
  - Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod
  - Adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.
- Bod â digon o wybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i gyfrannu'n deg ac yn gywir i swyddogaeth y pwyllgor.
- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion sydd gerbron y pwyllgor

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau

- Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a'i rôl ef/hi rôl trwy gadw at y Cod(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor

- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

3 Gwerthoedd

- Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

  - Ymddiriedaeth
  - Parch
  - Arloesi
  - Hyblygrwydd
  - Uniondeb
  - Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Diben a Gweithgareddau'r rôl

Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd

- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaeth y pwyllgor yn deg a chywir
- Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, a derbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol ar y Cod Ymddygiad.
- Arddangos annibyniaeth, gonestrwydd a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n cydfynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir
- Arwain y pwyllgor yn ei rôl yn y canlynol:
  - hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
  - cynorthwyo'r Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau;
  - cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;
  - monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
  - cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n gysylltiedig â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
  - rhoi rhyddhad i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
  - ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
  - arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL AELOD O'R PWYLLGOR SAFONAU

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

2 Diben a Gweithgareddau'r rôl

Deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol drwy:

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- cynorthwyo'r Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
- rhoi rhyddhad i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
- ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- Bod â digon o wybodaeth dechnegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i gyfrannu'n deg ac yn gywir i swyddogaeth y pwyllgor.

- Bod yn drylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd a materion sydd gerbron y pwyllgor

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau

- Cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau,

- Gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

- Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthnasau

- Sicrhau cywirdeb y penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor a'i rôl ef/hi rôl trwy gadw at y Cod(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor

- Deall rolau perthnasol yr aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor Safonau

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad

DISGRIFIAD RÔL CEFNOGWR AELODAU

1 Atebolrwydd

- I'r pwyllgor/grŵp priodol

2 Diben a Gweithgaddau'r rôl

Yn y Cyngor

- Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r maes diddordeb yn lleol ac yn genedlaethol
- Hyrwyddo'r maes diddordeb sy'n cael ei hyrwyddo o fewn blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor
- Hyrwyddo anghenion unrhyw grŵp a gynrychiolir i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y cyngor
- Gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor i sefydlu strategaethau, polisïau, cynlluniau ac ati sy'n gysylltiedig â'r maes diddordeb
- Cynnal ymwybyddiaeth o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r maes diddordeb
- Cyfrannu at arferion da a gwelliant parhaus mewn gwasanaethau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r maes diddordeb
- Ymgysylltu ag Aelodau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r maes diddordeb drwy fynychu cyfarfodydd pwyllgor perthnasol
- Codi ymwybyddiaeth o, a chymryd rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu Aelodau a Swyddogion mewn perthynas â'r maes diddordeb

Yn y Gymuned (lle bo'n briodol)

- Codi proffil y maes diddordeb yn y gymuned
- Ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol mewn materion yn ymwneud â'r maes diddordeb
- Arwain a chefnogi mentrau local a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r maes diddordeb

3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor, fel

- Ymddiriedaeth
- Parch
- Arloesi
- Hyblygrwydd
- Uniondeb
- Ymrwymiad